# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| Teitl y cynnig: | **Cynyddu'r uchafswm ffi am ofal amhreswyl o'i lefel bresennol o £100.** |
| Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm): | **Louise Armstrong-Rodgers – Pennaeth Talu am Ofal**<br>**Melanie Thomas – Rheolwr Polisi Talu am Ofal**<br>**Jacob Bridges – Swyddog Polisi Talu am Ofal** |
| Adran: | **Talu am Ofal** |
| Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwch-swyddog Cyfrifol (enw): | **Albert Heaney, CBE, y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol** |
| Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol: | **Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**<br>**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol** |
| Dyddiad Dechrau: | **14 Mai 2024** |

## CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried eu cymryd a pham? ................3

Adran 2. Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol? .......................................................9

Adran 3. Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a’r Gymraeg? ....................................13

Adran 4. Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd? ......................................................14

Adran 5. Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol? ....................................................18

Adran 6. Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Beth fydd yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol? ............................................................................................21

Adran 7. Cofnod o'r Asesiadau Effaith Llawn Gofynnol ...................................................21

Adran 8. Casgliad ...........................................................................................................23

Adran 9. Datganiad .........................................................................................................26

Asesiadau Effaith Llawn....................................................................................................27

A. Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb...........................................................................27

B. Asesiad o’r effaith ar y Gymraeg ................................................................................41

C. Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth .........................................................................45

D. Asesiad dyletswydd economaidd-gymdeithasol .........................................................51

## ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN YSTYRIED EU CYMRYD A PHAM?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar yr uchafswm ffi am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl. Mae'r uchafswm ffi wythnosol bresennol wedi'i phennu yn £100 yr wythnos, sef y lefel a bennwyd yn 2020. Yn dilyn pandemig COVID-19 ac yn fwy diweddar oherwydd y cynnydd chwyddiannol sylweddol yng nghostau darparu gofal a'r heriau ariannol difrifol y mae'r awdurdodau lleol yn eu hwynebu, ynghyd â'r nifer cynyddol o bobl y mae angen gwasanaethau gofal a chymorth arnynt, mae'n ddoeth ymgynghori ynghylch a ddylid cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol bresennol am ofal a chymorth amhreswyl i adlewyrchu'r cynnydd chwyddiannol hwn.

Mae'r uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl, a gyflwynwyd gyntaf yng Nghymru yn 2011 ac a barhaodd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn gosod terfyn ar y swm y gall awdurdodau lleol ei godi ar unigolyn yr aseswyd bod angen gofal a chymorth cymdeithasol arno gartref neu yn y gymuned.

Pan gafodd ei gyflwyno, cafodd yr uchafswm ffi wythnosol ei phennu yn £50 yr wythnos. Cafodd yr uchafswm ffi wythnosol ei chynyddu yn ystod blynyddoedd dilynol yn unol â bwriad Llywodraeth Cymru i weithio tuag at gyflwyno uchafswm o £100 yr wythnos erbyn diwedd tymor y Llywodraeth ddiwethaf (2016-2021). Diben hyn oedd sicrhau cydbwysedd rhwng galluogi awdurdodau lleol i godi incwm ychwanegol er mwyn helpu i liniaru'r pwysau o ran y costau sy'n gysylltiedig â darparu gofal, a sicrhau ansawdd y gofal hwnnw, tra oedd y ffi yn parhau i fod yn deg ac yn fforddiadwy i bobl ei thalu. Cyflawnwyd hyn ym mis Ebrill 2020; a dyma yw'r polisi presennol o hyd.

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb cyfreithiol dros ddarparu gofal a chymorth cymdeithasol i'w priod ddinasyddion a aseswyd, naill ai yn eu cartref eu hunain, neu mewn lleoliad gofal preswyl. Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i godi ffioedd am y gofal a'r cymorth a ddarperir neu a drefnir ganddynt. Rhagdybir y byddant yn codi ffi neu y byddant yn codi ffi ar bob achlysur. Lle maent yn gwneud hynny, mae ffioedd yn seiliedig ar allu unigolyn i dalu ffi (o fewn y diogelwch ariannol a roddir i'r rhai ar incwm isel) ac nid ar ffactorau megis rhyw, oedran neu statws priodasol.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn sicrhau mai dim ond unigolion sydd â'r gallu ariannol i dalu uchafswm ffi wythnosol uwch a fyddai'n gwneud hynny. Byddai hyn yn cael ei bennu gan y broses arferol, fel rhan o'r prawf modd a gynhelir gan Awdurdod Lleol unigolyn. Byddai'r caledi ariannol y mae pobl yn ei wynebu oherwydd y cynnydd mewn costau byw yn cael ei ystyried yn y prawf modd. Felly, ni fyddai'n ofynnol i bawb sy'n talu'r uchafswm ffi wythnosol o £100 ar hyn o bryd dalu swm uwch.

## Y tymor hir

Newid yn y boblogaeth ac anghenion cynyddol

Mae angen cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rhagamcenir y bydd cyfran y bobl dros 75 oed yng Nghymru yn cynyddu o 9.9% o'r boblogaeth yn 2021 i 13.8% yn 2041, gan gynyddu o tua 307,000 o bobl i tua 455,000 o bobl.. Disgwylir i gyfran y bobl 65 oed neu'n hŷn gynyddu o ychydig dros un o bob pump o'r boblogaeth yn 2021 (neu 21.4%) i dros un o bob pedwar o'r boblogaeth erbyn 41 (neu 25.5%). Er na ellir cysylltu'r galw am ofal a chymorth yn y dyfodol yn gyfan gwbl â phoblogaeth sy'n heneiddio, mae'n debygol o gynyddu'r pwysau ar wasanaethau gofal. Mae mwy o bobl yn byw o'u geni â chyflyrau sy'n galw am fathau o ofal gydol oes ac mae nifer mawr o blant sy'n derbyn gofal. Mae'r pwysau sy'n deillio o'r newidiadau hyn mewn demograffeg yn rhoi cyd-destun yr heriau ariannol presennol sy'n rhoi pwysau eithriadol ar wasanaethau gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Heriau ariannu

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i fod yn ganran uwch o wariant cyffredinol llywodraeth leol. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau a chwyddiant cyflogau yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r pwysau cynyddol ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru. O ganlyniad, mae'r costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau gofal a chymorth yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r uchafswm ffi am ofal a chymorth amhreswyl wedi aros yn ddigyfnewid ers 2020.

Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys 'egwyddor datblygu cynaliadwy', felly mae cynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol yn hollbwysig. Bydd y gallu i gynyddu'r uchafswm ffi a godir ar bobl sy'n cael gwasanaeth ac yr aseswyd y gallant dalu'r uchafswm ffi, drwy'r broses asesu ariannol, yn galluogi llywodraeth leol i gynyddu ei hincwm a ddefnyddir, yn ei dro, i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru.

Roedd yr ymrwymiad i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yn rhan o Faniffesto Plaid Lafur Cymru a Rhaglen Lywodraethu ddilynol Llywodraeth Cymru 2021-26; a'r ymrwymiad yw'r man cychwyn ar gyfer gwell telerau ac amodau i weithwyr gofal cymdeithasol. Drwy gynyddu'r cyllid y maent yn ei gael drwy godi ffioedd, gall Awdurdodau Lleol gefnogi'r sector gofal cymdeithasol gan gynnwys parhau i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'r gweithlu. Mae hyn yn helpu i alluogi unigolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol a bydd yn cael effaith gadarnhaol ar adnoddau a morâl y gweithlu.

## Effaith

Gallai cynyddu'r uchafswm ffi gael effeithiau gwrthnysig; er enghraifft, gallai atal pobl ymhellach rhag ceisio asesiad o'u hanghenion hyd nes y bydd argyfwng; Os bydd pobl yn ceisio 'bwrw ymlaen' heb y gofal y mae arnynt ei angen oherwydd ymwybyddiaeth o'r uchafswm ffi, gallai fod yn ddrwg i'w llesiant yn y dyfodol, gyda risg o waethygu cyflyrau iechyd a llesiant/dirywiad cyffredinol. Mae'r argyfwng costau byw presennol wedi cael cryn effaith ar bobl. Fodd bynnag, bydd y prawf modd a gynhelir er mwyn pennu'r swm y bydd

pobl yn ei dalu tuag at eu gofal yn ystyried amgylchiadau ariannol unigolion. Er hynny, ni allwn fod yn hyderus bod hyn yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws y 22 awdurdod lleol. Mae gan swyddogion dystiolaeth bod diystyriadau disgownt yn cael eu cymhwyso'n wahanol. Byddai rhoi newid o'r fath ar waith yn cael effeithiau andwyol posibl, gan nad oes un dull gweithredu cyson ar draws y bwrdd hyd yn hyn.

Yn ogystal â'r effaith ar yr unigolyn, gallai hyn greu mwy o gostau o fewn y system yn y pen draw (er enghraifft, ysgogi'r angen am fynediad cynharach at ymyriadau mwy acíwt gan gynnwys cartrefi gofal/gofal ysbyty). Nid yw'n bosibl asesu'r costau hyn ar hyn o bryd.

At hynny, nid yw'r boblogaeth sy'n cael darpariaeth gofal amhreswyl (ac y mae gweithredu'r uchafswm ffi yn effeithio arnynt o ganlyniad) wedi'i chyfyngu i'r rhai o oedran pensiynadwy, ond bydd yn cynnwys pobl ag anableddau, gofalwyr di-dâl yr aseswyd bod angen gofal a chymorth arnynt yn eu rhinwedd eu hunain, y rhai â chyflyrau niwrowahanol ac anghenion iechyd meddwl a llesiant a'r rhai ag anableddau dysgu. Mae'n debygol bod yr “argyfwng costau byw” eisoes yn peri her i'r grwpiau hyn.

Gellir codi'r uchafswm (neu gost lawn eu gofal, pa un bynnag sydd isaf) ar unigolion nad ydynt yn derbyn asesiad ariannol, waeth beth fo'u sefyllfa ariannol wirioneddol (yn ddarostyngedig i ofynion ar awdurdodau lleol i sicrhau na fydd pobl yn agored i niwed yn ariannol).

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cyhoeddi Ystadegau Allweddol sy'n ymwneud â Phoblogaeth Cymru sy'n Heneiddio ac, ym mis Medi 2023, nododd fod bron i un o bob pedwar person hŷn yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol a bod y ffigur hwn yn cynyddu o 15% o berchen-feddianwyr hŷn i 33% o rentwyr tai cymdeithasol. Mae cyfraddau tlodi incwm cymharol yn cynyddu gydag oedran, gydag 16% o bobl 65-69 oed a 19% o bobl 70-79 oed yn byw mewn tlodi incwm cymharol.

Mae 29% o fenywod hŷn sengl yn byw mewn tlodi incwm cymharol, o gymharu ag 11% o gyplau hŷn. Mae'r ffigurau sydd ar gael ar gyfer dynion hŷn sengl yn seiliedig ar sampl gyfyngedig ond, serch hynny, mae'n awgrymu mai'r nifer yw 31%.

Ar hyn o bryd pensiwn sylfaenol y wladwriaeth yw £169.50 yr wythnos (£8,814.00 y flwyddyn) a phensiwn llawn newydd y wladwriaeth (i'r rhai a ymddeolodd ers mis Ebrill 2016) yw £221.20 yr wythnos (£11,502.40 y flwyddyn).

Mae credyd pensiwn yn hawl ariannol i bobl dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth sy'n atodi'r incwm wythnosol i £218.15 yr wythnos i berson sengl a £332.95 i gwpl. Mae nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Pensiwn yng Nghymru wedi lleihau'n raddol dros y ddwy flynedd diwethaf. Ym mis Chwefror 2023, roedd 82,028 o bobl yn cael Credyd Pensiwn yng Nghymru. Mae menywod bron ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn hawlio Credyd Pensiwn yng Nghymru ac, ym mis Chwefror 2023, roedd 53,938 o fenywod yn ei hawlio o gymharu â 28.092 o ddynion.

Adroddir hefyd fod bod 67% o bobl dros 65 oed yn dweud eu bod yn byw gydag un salwch hirdymor, o gymharu â 71% yn 2020, ond bod 32% â dau salwch hirdymor neu ragor, anhwylderau cyhyrysgerbydol, anhwylderau'r galon neu anhwylderau cylchrediad y gwaed yn bennaf, o gymharu â 39%. Er hynny, mae'r ffigur yn codi o 62% o bobl 65-74 oed a

72% i'r rhai dros 75 oed. At hynny, mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn nodi bod 60% o bobl dros 65 oed yn teimlo'n unig weithiau, o'i gymharu â 58% o bobl 45-64 oed, tra bo 9% o bobl hŷn yng Nghymru yn teimlo'n unig bob amser. Er nad oes unrhyw gydberthyniad uniongyrchol i awgrymu bod pobl â salwch hirdymor neu'r rhai sy'n teimlo'n unig yn cael gofal amhreswyl, mae'n debygol iawn bod llawer ohonynt yn ei gael.

Mae credyd cynhwysol yn daliad misol i'r rhai o dan oedran pensiwn y wladwriaeth (65 oed ar hyn o bryd) sy'n ddi-waith neu ar incwm isel er mwyn helpu gyda chostau byw. Ym mis Mehefin 2023, roedd 23,653 o bobl dros 60 oed yng Nghymru yn cael Credyd Cynhwysol. Gwyddom hefyd, ar 1 Hydref 2021, fod 22% o aelwydydd un pensiynwr a 13% o gyplau a oedd yn bensiynwyr mewn tlodi tanwydd, sy'n golygu bod aelwyd yn gwario mwy na 10% o'i hincwm ar wresogi ei chartref. Amcangyfrifir y gallai hyd at 45% o'r holl aelwydydd yng Nghymru fod mewn tlodi tanwydd o fis Ebrill 2022 ar ôl i gostau tanwydd gynyddu i'r cap ar brisiau. Nododd Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd fod 25% o bobl 65-74 oed a 17% o bobl dros 75 oed wedi dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd talu biliau weithiau neu bob amser. [1]

Yn 2022, nododd Gofalwyr Cymru[2], oherwydd yr argyfwng costau byw, fod 26% o ofalwyr wedi nodi eu bod yn gwario llai ar hanfodion megis bwyd a gwres a bod 87% wedi dweud mai costau byw cynyddol yw un o'r prif heriau y byddant yn eu hwynebu yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae'r cynnydd chwyddiannol diweddar mewn costau byw wedi gosod baich ariannol ychwanegol ar aelwydydd. Er enghraifft, nododd Arolwg Anabledd y DU fod 52% o bobl anabl yn cael cymorth gyda'u hanghenion gofal o leiaf unwaith yr wythnos ac, o'r rhain, fod 75% yn cael cymorth gyda gofal gan berthnasau a ffrindiau sy'n byw gyda hwy (naill ai â thâl neu heb dâl), tra bo 19% yn cael cymorth gyda gofal gan ofalwyr, nyrsys neu weithwyr proffesiynol eraill cyflogedig. At hynny, roedd 42% o bobl anabl yn ei chael hi'n ‘eithaf anodd’ neu'n ‘anodd iawn’ talu eu costau byw arferol cyn pandemig COVID-19, o gymharu â 51% yn ystod y pandemig.[3]

## Atal

Mae Stats Cymru yn nodi mai nifer yr oedolion a dalodd yr uchafswm ffi wythnosol tuag at gost eu gofal a'u cymorth neu tuag at gymorth i ofalwyr oedd 11,696 yn 2018-19 ac mai

---

[1] Ffynhonnell Arolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Ebrill 2022 i Fawrth 2023.

[2] Gofalwyr Cymru (2022) Cyflwr Gofalu yng Nghymru 2022 Cipolwg ar ofal di-dâl yng Nghymru. Tachwedd 2022. Ar gael yn: https://www.carersuk.org/media/lrzlhf5p/compressed-carers-wales-state-of-caring-in-wales-2022-report-english-final.pdf

[3] UK Disability Survey research report, June 2021 - GOV.UK (www.gov.uk)

nifer yr oedolion a dalodd ffi safonol am ofal a chymorth neu gymorth i ofalwyr oedd 14,881 yn 2018-19. Os bydd tueddiadau yn aros yr un fath, mae'n debygol y gallai tua 3000 yn fwy o bobl fod yn talu'r ffi safonol tuag at eu gofal o hyd, yn hytrach na'r uchafswm ffi.

Gan fod y swm y mae unigolyn yn ei dalu tuag at ofal amhreswyl yn seiliedig ar amgylchiadau ariannol unigol, nid yw'n debygol y bydd cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol amhreswyl yn effeithio'n negyddol ar bawb sy'n derbyn gwasanaethau gofal amhreswyl ar hyn o bryd. Er nad oes modd pennu'r effaith yn hawdd, rydym yn rhag-weld y bydd y newid debycaf o effeithio ar y rhai yr asesir eu bod yn gallu talu'r uchafswm ffi. Er hynny, nid yw o reidrwydd yn wir y bydd asesiad ariannol o'r rhai sy'n talu'r uchafswm ffi wythnosol lawn ar hyn o bryd yn dangos y gallant dalu uchafswm ffi uwch. Byddai angen i awdurdodau lleol ailasesu pobl sy'n cael gofal yn unol ag unrhyw newidiadau mewn polisi.

Mae angen ystyried y ffaith bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn aml gan ddarparwyr trydydd parti. Mae risg y gallai cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol annog y darparwyr hyn i gynyddu eu ffioedd i'r awdurdodau lleol er mwyn gallu talu cyflog tecach i'w staff am y gwasanaethau a ddarperir. Os bydd hyn yn digwydd, dylid nodi y gallai pawb sy'n derbyn gofal orfod talu tâl uwch nag y maent yn ei dalu ar hyn o bryd.

Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol dwys sydd ar yr awdurdodau lleol a phryderon a godwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Mae'r awdurdodau lleol, ar gyfartaledd, yn gwario bron 30% o'u cyllideb ar ofal cymdeithasol, gyda 37% ar addysg a'r gweddill ar wasanaethau eraill fel tai, trafnidiaeth a'r amgylchedd.

**Integreiddio a Chydweithio**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdodau Lleol sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Er mwyn cyflawni'r polisi hwn, bydd angen i Lywodraeth Cymru gydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynnal yr asesiad ariannol o unigolion, gan weithio yn unol â'r Rheoliadau a'r Cod Ymarfer.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru hefyd gydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol i sicrhau bod cyfraddau ffioedd newydd yn cael eu cyfleu'n glir i'r cyhoedd, darparwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid trydydd parti, er mwyn sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am unrhyw gyfraddau ffioedd a delir.

**Cyfranogiad**

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, roedd cyfle i unigolion ac i sefydliadau roi eu barn am y cynnydd arfaethedig hwn drwy ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd gan sefydliadau sy'n cynrychioli pobl sy'n cael gofal a chymorth y cyfle i fynegi eu barn ar ran y bobl y maent yn eu cynrychioli. Gwnaeth yr ymgynghoriad bara am 12 wythnos, gan gynnig cyfle i unigolion a sefydliadau fynegi eu barn.

**Costau ac arbedion**

Yn ôl amcangyfrifon dros dro, yn seiliedig ar ddata o 2021-22[4] roedd y buddion cyllid i'r awdurdodau lleol yn llai na £7.2m y flwyddyn am gynnydd o £15; roeddent tua £9.6m yn seiliedig ar gynnydd wythnosol o £20 ac incwm o ryw £12m yn seiliedig ar gynnydd o £25 yr wythnos. Dim ond amcangyfrifon dros dro yw'r rhain, sy'n seiliedig ar yr effaith bosibl os asesir na all pobl dalu'r ffi uwch neu os bydd cost eu gofal yn gostwng islaw'r uchafswm newydd. Ar sail y dadansoddiad cychwynnol, nid yw'r buddion cyllido, unwaith y bydd yr holl ffactorau yn cael eu hystyried, yn glir eto, ond mae'r incwm a godir yn ôl awdurdod lleol yn debygol o fod yn fach iawn o'i gymharu â chost gwasanaethau cymdeithasol.

Os bydd cynnydd yn cael ei wneud i'r uchafswm ffi wythnosol, bydd unigolion yr asesir bod angen iddynt dalu swm uwch yn atebol i dalu £780 y flwyddyn yn seiliedig ar gynnydd wythnosol o £15, £1040 yn ychwanegol y flwyddyn yn seiliedig ar gynnydd wythnosol o £20 neu £1,300 y flwyddyn yn ychwanegol yn seiliedig ar gynnydd wythnosol o £25.

**<u>Mecanwaith</u>**

Bydd angen diwygio'r fersiynau presennol o'r Rheoliadau Gosod Ffioedd a'r Cod Ymarfer er mwyn rhoi'r polisi hwn ar waith.

[4] Oedolion y codwyd tâl arnynt am ofal a chymorth, yn ôl awdurdod lleol a mesur (llyw.cymru)

## ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?

### 2.1 Pobl a chymunedau

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/ychydig iawn o effaith), y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl a chymunedau?**

Gall cynyddu'r uchafswm ffi bresennol ar gyfer amhreswyl effeithio'n negyddol ar bobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal a chymorth ac sy'n cael eu hasesu'n ariannol fel rhai sy'n gallu fforddio talu naill ai'r uchafswm ffi wythnosol lawn neu dalu tuag at gost eu gofal a'u cymorth.

Amcangyfrifir bod tuag un rhan o dair o bobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal amhreswyl ar hyn o bryd yn talu am eu gofal amhreswyl. Mae'n debygol o effeithio'n negyddol ar y rhai sy'n gorfod talu uchafswm o £100 yr wythnos ar hyn o bryd am y gofal amhreswyl y maent yn ei dderbyn. Nid yw'n debygol yr effeithir ar y rhai sy'n talu cyfraniad at gost eu gofal, neu sy'n cael eu hasesu ar hyn o bryd fel rhai nad ydynt yn gorfod cyfrannu'n ariannol.

Rhaid i'r Awdurdodau Lleol beidio ag elwa o'r gwasanaethau a ddarperir. Os yw cost darparu gofal i unigolyn yn llai na'r uchafswm ffi, dim ond am gost y gofal hwnnw y caiff yr Awdurdodau Lleol godi tâl, hyd yn oed os yw asesiad ariannol yn barnu bod yr uchafswm ffi yn fforddiadwy i'r unigolyn.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, ac yn unol â'r rheoliadau a'r codau ymarfer perthnasol, gall yr awdurdodau lleol arfer eu disgresiwn i godi tâl am y gofal a'r cymorth perthnasol y maent yn eu darparu. Ac eithrio gofynion y Ddeddf, y rheoliadau a'r Cod Ymarfer, pan fydd awdurdod lleol yn penderfynu arfer ei ddisgresiwn i godi tâl am y gofal a'r cymorth y mae'n eu darparu neu'n eu trefnu, mae cynllun a chynnwys ei bolisi ar gyfer codi tâl yn fater i'r awdurdod hwnnw. Yn unol â gofynion y Ddeddf, y rheoliadau a'r Cod Ymarfer, mae angen i'r awdurdodau benderfynu pa ofal a chymorth y byddant yn codi tâl amdano, os o gwbl, a natur a lefel unrhyw dâl a godir a sut y bydd y taliadau hyn yn cael eu cymhwyso i dderbynwyr gofal a chymorth penodol. O fewn y fframwaith, bydd angen i'r awdurdodau benderfynu hefyd sut y byddai eu prosesau ar gyfer ymgymryd â gwahanol gamau eu gweithdrefn codi tâl yn gweithredu a sicrhau bod y rhain yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf, y rheoliadau a'r Cod hwn. Yn benodol, bydd angen i'r awdurdodau benderfynu pa lwfansau, diystyriadau neu agweddau eraill y maent yn dymuno eu hymgorffori yn yr asesiadau ariannol y maent yn eu cynnal y tu hwnt i'r rhai sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth. Gan fod gan yr awdurdodau lleol y disgresiwn i ddylunio eu polisïau codi tâl eu hunain, efallai y bydd mân wahaniaethau yn y ffordd y mae pob awdurdod lleol yn asesu unigolion yn ariannol.

Gwyddys bod costau byw wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond nid yw'r cynnydd hwn bob amser yn cael ei hadlewyrchu mewn asesiadau ariannol a gynhelir gan yr awdurdodau lleol. Yn gyffredinol, defnyddir cyfradd benodedig i gyfrifo costau byw ac nid yw pob awdurdod lleol yn caniatáu ar gyfer costau yn ychwanegol at y rhain. Er enghraifft pan fydd gan unigolyn anabl fil trydan uwch oherwydd gofyniad offer meddygol, nid yw'r tâl ychwanegol hwn bob amser yn cael ei ddiystyru o unrhyw asesiad a wneir. Gallai hyn olygu y gallai cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol roi mwy o bwysau ar yr unigolion hyn sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd talu eu biliau.

### 2.2 Hawliau Plant

Nid yw'r Ddeddf yn caniatáu i'r awdurdodau lleol godi tâl ar blentyn neu berson ifanc o dan 18 oed am y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael, na'r cymorth y maent yn ei gael lle maent yn ofalwr ifanc o dan 18 oed. Mae'r Ddeddf, er hynny, yn caniatáu i awdurdod lleol godi tâl ar riant neu warcheidwad am hyn, ond mae'r rheoliadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn atal hyn. O ganlyniad, ni ellir codi tâl ar riant neu warcheidwad am y gofal a'r cymorth y mae eu plentyn yn eu cael o dan Ran 4 o'r Ddeddf. Mae hyn ar y sail nad yw'r Gweinidogion o'r farn ei bod yn briodol ar hyn o bryd codi tâl ar riant neu warcheidwad o dan yr amgylchiadau hyn er mwyn sicrhau bod y rhai o dan 18 oed yn cael y gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen i fyw eu bywydau.

### 2.3 Cydraddoldeb

Mae’r asesiad ar gael yn **atodiad B** isod.

### 2.4 Prawfesur Polisïau o Safbwynt Anghenion Cefn Gwlad

**Sut (naill ai’n gadarnhaol neu’n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar unigolion a chymunedau gwledig?**

Gan fod gan yr awdurdodau lleol y disgresiwn i ddylunio eu polisïau codi tâl eu hunain, efallai y bydd mân wahaniaethau yn y ffordd y mae pob awdurdod lleol yn asesu unigolion yn ariannol.

Gall y cyfraddau comisiynu ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol amrywio ledled y wlad, gyda chostau posibl y gwasanaethau hyn yn uwch mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn yn golygu y gallai fod yn ofynnol i unigolyn sy'n talu am 10 awr o ofal mewn ardal wledig dalu tâl uwch nag unigolyn sy'n talu am 10 awr o ofal mewn mannau eraill gan fod cost y gwasanaethau hyn yn uwch i'r awdurdod lleol.

At ddibenion asesiad ariannol a chodi tâl, ac eithrio'r amrywiannau mewn polisïau codi tâl o fewn yr awdurdodau lleol, nid yw'r fframwaith yn cael unrhyw effaith ar faterion gwledig. Mae'n edrych ar bobl ar sail eu rhinweddau eu hunain o ran y gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen, eu cost a gallu ariannol yr unigolyn hwnnw i dalu'r ffi am hyn.

Os na fydd gan unigolyn lawer o arian gan ei fod yn byw mewn ardal wledig, byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei asesiad ariannol er mwyn lleihau neu ddileu unrhyw ffi a gâi ei chodi arno yn unol â hynny.

Ni fydd y newidiadau arfaethedig sy'n cael eu cyflwyno yn newid y sefyllfa hon.

### 2.5 Iechyd

#### 2.5a Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar benderfynyddion iechyd?

At ddibenion asesu ariannol a chodi tâl, nid yw'r fframwaith yn gysylltiedig ag iechyd. Mae'n edrych ar bobl ar sail eu rhinweddau eu hunain o ran y gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen eu cost a gallu ariannol yr unigolyn hwnnw i dalu'r ffi am hyn. Os na fydd gan unigolyn lawer o arian oherwydd iechyd gwael, byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei asesiad er mwyn lleihau unrhyw ffi a gâi ei chodi arno yn unol â hynny.

Ni fydd y newidiadau sy'n cael eu hystyried yn newid y sefyllfa hon.

Mae risg y gallai pwysau ychwanegol ar unrhyw gynnydd mewn costau gofal gael effaith ddifrifol ar lesiant pobl a'u gallu i fforddio gofal. Gallai hyn olygu bod pobl yn gohirio mynediad at ofal ac y gallai fod arnynt angen gofal mwy dwys yn nes ymlaen.

#### 2.5b. A allai fod effaith iechyd wahaniaethol ar grwpiau penodol?

Mae'r rheoliadau'n cynnwys nifer o ofynion ac amddiffyniadau sy'n sicrhau bod ffi person yn fforddiadwy ac nad yw'n achosi caledi ariannol iddynt wrth dalu eu costau byw bob dydd. Mae'r gofynion hyn yn sicrhau, ar ôl i ffi wythnosol gael ei chymhwyso, fod rhaid gadael person gydag "Isafswm Incwm" sy'n cyfateb i "hawl sylfaenol". Diffinnir hyn mewn rheoliadau fel budd-daliadau lles ar ffurf cymhorthdal incwm, lwfans cyflogaeth a chymorth, credyd gwarant neu fudd-daliadau sydd wedi disodli'r mathau hyn o fudd-daliadau megis credyd cynhwysol) ynghyd â swm o ddim llai na 35% o'r swm hwn (a elwir yn "byffer"). Yn ogystal, rhaid i'r person allu cadw 10% pellach fel cyfraniad tuag at ei wariant sy'n gysylltiedig ag anabledd.

Nodwyd pryderon bod gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd yn aml yn uwch na'r lwfans ychwanegol o 10% a ganiateir o fewn yr asesiad ariannol. Gallai hyn olygu bod unigolion ag anableddau o dan anfantais yn fwy na grwpiau eraill. Gallai pwysau ychwanegol a

achosir gan unrhyw gynnydd mewn costau gofal olygu nad yw pobl yn cael mynediad at y gofal y mae arnynt ei angen ac felly rhoddir mwy o bwysau ar y system iechyd yn ddiweddarach.

### 2.6 Preifatrwydd

**A fydd y cynnig yn cynnwys prosesu gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolion?**

Na fydd. Mae'r asesiad ariannol yn cael ei gynnal gan yr awdurdodau lleol a byddant yn dilyn eu polisïau preifatrwydd eu hunain i gyflawni'r gweithgarwch hwn.

## ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

### 3.1 Llesiant Diwylliannol

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer diwylliant yw 'cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'. Mae diwylliant yn cynnwys amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd a'r celfyddydau; mae treftadaeth yn cynnwys yr amgylchedd hanesyddol adeiledig a threftadaeth anniriaethol megis traddodiadau; mae'r celfyddydau'n cwmpasu sectorau perfformio a chreadigol gan gynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, theatr a chelf, tra bo chwaraeon a hamdden yn cynnwys chwaraeon elît a chymunedol, yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored ehangach.

**3.1a Sut y gall y cynnig gyfrannu at y nod o hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth, ac annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, ac mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden? (ar gyfer y Gymraeg gweler adran 3.2)**

At ddibenion cynnal asesiadau ariannol a chodi ffioedd, mae'r fframwaith yn edrych ar bobl ar sail eu rhinweddau eu hunain o ran y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, eu cost a gallu ariannol yr unigolyn hwnnw i dalu'r ffi am hyn. Os na fydd gan unigolyn lawer o arian, byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei asesiad er mwyn lleihau unrhyw ffi a gâi ei chodi arno yn unol â hynny. Ni ddylai hyn effeithio ar allu pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**3.1b A yw'n bosibl y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth, neu ar allu pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden? Os felly, pa gamau y gallwch chi eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno (er enghraifft, drwy ddarparu cyfleoedd eraill)?**

At ddibenion cynnal asesiadau ariannol a chodi ffioedd, mae'r fframwaith yn edrych ar bobl ar sail eu rhinweddau eu hunain o ran y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, eu cost a gallu ariannol yr unigolyn hwnnw i dalu'r ffi am hyn. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar lesiant diwylliannol.

Ni fydd y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn newid y sefyllfa hon.

### 3.2 Y Gymraeg

Mae'r asesiad ar gael yn **Atodiad E** isod.

## ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

Mae cefnogi twf economi Cymru a, thrwy hynny, fynd i'r afael â thlodi, wrth wraidd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

### 4.1 Busnesau, y cyhoedd ac unigolion

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/ychydig iawn o effaith), y bydd y cynnig yn effeithio ar fusnes a'r cyhoedd?**

At ddibenion cynnal asesiadau ariannol a chodi ffioedd, mae'r fframwaith yn edrych ar bobl ar sail eu rhinweddau eu hunain o ran y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, eu cost a gallu ariannol yr unigolyn hwnnw i dalu'r ffi am hyn. Os na fydd gan unigolyn lawer o arian, byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei asesiad er mwyn lleihau unrhyw ffi a gâi ei chodi arno yn unol â hynny. Felly, dim ond pobl a all fforddio talu tuag at gost eu gofal, neu dalu cost lawn eu gofal, sy'n talu. Ni fydd y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn newid y sefyllfa hon.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio y bydd yr argyfwng costau byw wedi cael effaith ar bobl yng Nghymru. Mae'r adroddiad *Prin yn Goroesi*, a gyhoeddwyd gan Anabledd Cymru yn 2023, yn amlinellu effaith yr argyfwng costau byw ar bobl anabl yng Nghymru a'r "[costau] unigryw a brofir gan bobl anabl neu gostau sy'n fwy hanfodol i bobl anabl" – cyfeirir yn gymdeithasol at hyn fel 'treth anabledd' weithiau. Mae'r adroddiad yn disgrifio'r rhain fel costau hanfodol ond cysylltiedig â nam ac yn nodi, o'r hyn a ddywedodd ymatebwyr i waith ymchwil, fod rhai pobl anabl yn aberthu gwariant dyddiol arall dim ond er mwyn gallu fforddio eu gwariant hanfodol sy'n gysylltiedig â nam. Nododd llawer o ymatebwyr yn yr adroddiad fod bwyd a thrafnidiaeth yn feysydd lle maent wedi torri gwariant.

Mae adroddiad Anabledd Cymru yn nodi bod rhai pobl anabl yng Nghymru wedi gorfod "cwtogi ar dreuliau cysylltiedig â nam" sy'n aml yn hanfodol ac, felly, gall lleihau gwariant yn y maes hwn gael effaith negyddol sylweddol ar fywyd. Dywedodd un ymatebydd yn yr adroddiad na allai fforddio costau ei weithiwr cymorth mwyach. Os bydd costau byw bob dydd yn parhau i gynyddu, a bod costau gofal i'r unigolyn yn cael eu capio ar swm uwch, mae hyn yn debygol o gael effaith ariannol gymedrol o leiaf ar yr unigolyn, er bod y cap ar gostau gofal amhreswyl a geir yng Nghymru (a'r prawf modd cysylltiedig sy'n seiliedig ar sefyllfa ariannol unigolyn) yn lliniaru'r risg y gofynnir i bobl gyfrannu swm nad yw'n rhesymol nac yn fforddiadwy.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cyhoeddi Ystadegau Allweddol sy'n ymwneud â Phoblogaeth Cymru sy'n Heneiddio[5] ac ym mis nododd fod bron i un o bob pedwar person

---

[5] Deall-poblogaeth-cymru-sy'n heneiddio-5.4.pdf (poblhŷn.cymru)

hŷn yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol a bod y ffigur hwn yn cynyddu o 15% o berchen-feddianwyr hŷn i 33% o rentwyr tai cymdeithasol. Mae cyfraddau tlodi incwm cymharol yn cynyddu gydag oedran, gydag 16% o bobl 65-69 oed a 19% o bobl 70-79 oed yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae 29% o fenywod hŷn sengl yn byw mewn tlodi incwm cymharol, o gymharu ag 11% o gyplau hŷn. Mae'r ffigurau sydd ar gael ar gyfer dynion hŷn sengl yn seiliedig ar sampl gyfyngedig ond, serch hynny, mae'n awgrymu mai'r nifer yw 31%.

Ar hyn o bryd pensiwn sylfaenol y wladwriaeth yw £156.20 yr wythnos (£8,122.40 y flwyddyn) a phensiwn llawn newydd y wladwriaeth (i'r rhai a ymddeolodd ers mis Ebrill 2016) yw £203.85 yr wythnos (£10,600.20 y flwyddyn). Mae credyd pensiwn yn hawl ariannol i bobl dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth sy'n cynyddu'r incwm wythnosol i £201.05 yr wythnos i berson sengl a £306.85 i gwpl. Mae nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Pensiwn yng Nghymru wedi lleihau'n raddol dros y ddwy flynedd diwethaf. Ym mis Chwefror 2023, roedd 82,028 o bobl yn cael Credyd Pensiwn yng Nghymru. Mae menywod bron ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn hawlio Credyd Pensiwn yng Nghymru ac, ym mis Chwefror 2023, roedd 53,938 o fenywod yn ei hawlio o gymharu â 28.092 o ddynion.

Mae credyd cynhwysol yn daliad misol i'r rhai o dan oedran pensiwn y wladwriaeth (65 oed ar hyn o bryd) sy'n ddi-waith neu ar incwm isel er mwyn helpu gyda chostau byw. Ym mis Mehefin 2023, roedd 23,653 o bobl dros 60 oed yng Nghymru yn cael Credyd Cynhwysol. Gwyddom hefyd, ar 1  Hydref 2021, fod 22% o aelwydydd un pensiynwr a 13% o gyplau a oedd yn bensiynwyr mewn tlodi tanwydd, sy'n golygu bod aelwyd yn gwario mwy na 10% o'i hincwm ar wresogi ei chartref. Amcangyfrifir y gallai hyd at 45% o'r holl aelwydydd yng Nghymru fod mewn tlodi tanwydd o fis Ebrill 2022 ar ôl i gostau tanwydd gynyddu i'r cap ar brisiau. Nododd Arolwg Cenedlaethol Cymru (2022-23) hefyd fod 25% o bobl 65-74 oed a 17% o bobl dros 75 oed wedi dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd talu biliau weithiau neu bob amser.

Yn 2022, nododd Gofalwyr Cymru[6], oherwydd yr argyfwng costau byw, fod 26% o ofalwyr wedi nodi eu bod yn gwario llai ar hanfodion megis bwyd a gwres a bod 87% wedi dweud mai costau byw cynyddol yw un o'r prif heriau y byddant yn eu hwynebu yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae data gan yr ONS yn dangos bod gennym boblogaethsy'n heneiddio a bod y duedd hon ar gynnydd[7]. Mae hyn yn cael effaith ar unigolion a'r gymdeithas ehangach. I unigolion, mae byw'n hirach fel arfer yn golygu mwy o ddibyniaeth ar wasanaethau gofal a chymorth. Mae hyn yn golygu y bydd disgwyl i berson dalu mwy tuag at ei ofal dros ei oes,

---

6 https://www.carersuk.org/images/State_of_caring_in_Wales/Compressed_Carers_Wales_State_of_Caring_in_Wales__20 22_report_English_final.pdf

7 Byw'n hirach – y Swyddfa Ystadegau Gwladol  - y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

yn aml oherwydd cyfyngiadau ar weithgareddau bywyd beunyddiol a achosir gan heneiddio neu amhariadau eraill.

### 4.2 Y Sector Cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/ychydig iawn o effaith), y bydd y cynnig yn effeithio ar y sector cyhoeddus?**

Mae cyflwyno cynnydd i'r uchafswm ffi am ofal amhreswyl yn cael effaith fach gadarnhaol ar yr awdurdodau lleol gan ei fod yn eu galluogi i godi mwy ar rai unigolion sy'n talu am eu hanghenion gofal a chymorth. Mae awdurdodau lleol yn wynebu pwysau ariannol eithriadol ar hyn o bryd ac, oherwydd y cynnydd chwyddiannol diweddar, mae cost darparu gofal wedi cynyddu. Drwy godi ffi ar y rhai sy'n cael gofal ac y mae asesiad ariannol yn dangos y gallant dalu mwy na'r uchafswm ffi bresennol, sef £100, byddai modd i'r awdurdod lleol gynyddu ei incwm.

Mae amcangyfrifon dros dro, sy'n seiliedig ar ddata o 2021-22[8] yn rhoi'r buddion cyllido i'r awdurdodau lleol yn llai na £7.2m y flwyddyn am gynnydd o £15; tua £9.6m yn seiliedig ar gynnydd wythnosol o £20 a thua £12m o incwm yn seiliedig ar gynnydd o £25 yr wythnos. Dim ond amcangyfrifon dros dro yw'r rhain, sy'n seiliedig ar yr effaith bosibl os asesir na all pobl dalu'r ffi uwch neu os bydd cost eu gofal yn gostwng islaw'r uchafswm newydd. Ar sail gwaith dadansoddi cychwynnol, nid yw'r manteision cyllido ar ôl i'r holl ffactorau gael eu hystyried yn glir eto.

### 4.3 Y Trydydd Sector

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/ychydig iawn o effaith), y bydd y cynnig yn effeithio ar fudiadau'r trydydd sector a'r hyn maent yn ei wneud?**

Ni fydd cynyddu'r uchafswm ffi am ofal amhreswyl yn cael unrhyw effaith ar sefydliadau yn y trydydd sector. Fodd bynnag, bydd sefydliadau yn y trydydd sector sy'n cefnogi pobl sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth, er enghraifft oedolion ag anghenion cymhleth neu anableddau dysgu a phobl hŷn, yn pryderu ynghylch cynigion i gynyddu'r uchafswm ffi am ofal amhreswyl.

---

[8] Oedolion y codwyd tâl arnynt am ofal a chymorth, yn ôl awdurdod lleol a mesur (llyw.cymru)

Mae'n bosibl bod pobl y bydd yn ofynnol iddynt dalu uchafswm ffi uwch, yn cael gwasanaethau gan sefydliadau yn y trydydd sector fel rhan o'u gwasanaeth gofal a chymorth. Bydd sefydliadau yn y trydydd sector yn pryderu ynghylch yr effaith ar y bobl y maent yn eu cefnogi. Fodd bynnag, mae pobl sy'n talu am eu gofal amhreswyl yn cael asesiad ariannol a byddant ond yn talu'r ffi lawn os gallant fforddio talu neu byddant yn talu tuag at gost eu gofal, ar lefel yr aseswyd y gallant ei fforddio.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cyhoeddi Ystadegau Allweddol sy'n ymwneud â Phoblogaeth Cymru sy'n Heneiddio[9]. Nodir bod 67% o bobl dros 65 oed yn dweud eu bod yn byw gydag un salwch hirdymor, o'i gymharu â 71% yn 2020, ond bod 32% â dau salwch hirdymor neu ragor, anhwylderau cyhyrysgerbydol, anhwylderau'r galon neu anhwylderau cylchrediad y gwaed yn bennaf, o'i gymharu â 39%. Fodd bynnag, mae'r ffigur yn cynyddu o 62% o bobl 65–74 oed i 72% o bobl dros 75 oed. At hynny, mae Arolwg Cenedlaethol Cymru[10] yn nodi bod 60% o bobl dros 65 oed yn teimlo'n unig weithiau, o'i gymharu â 58% o bobl 45-64 oed, tra bo 9% o bobl hŷn yng Nghymru yn teimlo'n unig bob amser. Er nad oes unrhyw gydberthyniad uniongyrchol i awgrymu bod pobl â salwch hirdymor neu'r rhai sy'n teimlo'n unig yn cael gofal amhreswyl, mae'n debygol iawn bod llawer ohonynt yn ei gael. Mae hyn yn debygol o waethygu'r galw ar ddarparwyr gofal cymdeithasol, yn enwedig y trydydd sector.

### 4.4 Yr Effaith ar Gyfiawnder

Atebwch y canlynol mewn perthynas â'ch cynnig:

- **A ydych yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd? Nac ydwyf**
- **A ydych yn creu, yn dileu neu'n newid trosedd? Nac ydwyf**
- **A allai eich cynnig gael unrhyw effaith arall ar y system gyfiawnder e.e. yn sgil mwy o ymgyfreitha, yr angen am gymorth cyfreithiol, apelio yn erbyn penderfyniad corff cyhoeddus? Amherthnasol**

---

[9] Deall-poblogaeth-cymru-sy'n heneiddio-5.4.pdf (poblhŷn.cymru)

[10] Arolwg Cenedlaethol Cymru prif ganlyniadau: Ebrill 2022 i Fawrth 2023 | LLYW.CYMRU

## ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

O dan Adran 9 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi a gweithredu polisi adnoddau naturiol a chymryd pob cam rhesymol i'w weithredu gan annog eraill i gymryd camau o'r fath. Cyhoeddwyd y Polisi Adnoddau Naturiol ym mis Awst 2017.

**Bydd angen i chi ystyried a mynd ati, yn ôl yr angen, i gwblhau'r asesiadau canlynol** er mwyn sicrhau bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd:

| | | |
|---|---|---|
| **Gofynnol ar gyfer pob cynnig:** | • Blaenoriaethau cenedlaethol, heriau a chyfleoedd y Polisi Adnoddau Naturiol | 5.1a<br>5.1b |
| **Gofynnol ar gyfer pob cynnig** | • Bioamrywiaeth | 5.2 ac Atodiad F |
| **Gofynnol ar gyfer pob cynnig** | • Newid Hinsawdd | 5.3 |
| Cynlluniau a rhaglenni penodol sydd angen Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 | • Asesiad Amgylcheddol Strategol | 5.4 a Chanllawiau’r Asesiad Effaith Integredig |
| Cynigion a allai effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig<br>(ACA/AGA): | • Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | 5.5 a Chanllawiau’r Asesiad Effaith Integredig |

| | | |
|---|---|---|
| Prosiectau penodol sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref; trafnidiaeth; amaethyddiaeth; coedwigaeth; y môr; draenio tir a thrydan lle bo angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol o dan y Rheoliadau amrywiol | • Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | 5.6 a Chanllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |

## 5.1 Adnoddau Naturiol

### 5.1a Sut y bydd y cynnig yn cyflawni un neu ragor o Flaenoriaethau Cenedlaethol y Polisi Adnoddau Naturiol?

- **Dod o hyd i atebion seiliedig ar natur;**
- **Cynyddu ynni adnewyddadwy a dulliau o ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon; ac wrth wneud hynny,**
- **Defnyddio dull sy'n seiliedig ar leoedd.**

Amherthnasol

### 5.1b A yw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau cenedlaethol a'r cyfleoedd canlynol o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Amherthnasol

## 5.2 Bioamrywiaeth

Mae'r asesiad ar gael yn **atodiad F** isod.

## 5.3 Newid Hinsawdd

Mae newid hinsawdd wedi’i nodi’n un o’r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen i ni leihau ein hallyriadau drwy weithredu datgarboneiddio (5.3a) ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy wella ein cydnerthedd (5.3b).

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r uchafswm tâl am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl i oedolion, ac nid yw'n cael unrhyw effaith ar newid hinsawdd.

### 5.3a Datgarboneiddio

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar allyriadau yng Nghymru?**

Amherthnasol

### 5.3b Addasu

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y gallu i addasu i effeithiau newid hinsawdd?**

Amherthnasol

## 5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol

Amherthnasol

## 5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Amherthnasol

## 5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Amherthnasol

## ADRAN 6. Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL. BETH FYDD YR EFFAITH AR ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL?

### 6.1 Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldeb canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i benderfyniadau sydd o natur strategol yn unig.

I gael mynediad at ganllawiau statudol ac adnoddau pellach ewch i'r dudalen bwrpasol ar y wefan.

Er mwyn dangos bod y ‘sylw dyledus’ hwnnw wedi’i roi, cedwir trywydd archwilio tystiolaeth ar gyfer pob penderfyniad a wneir o dan y Ddyletswydd. Bydd yr asesiad effaith hwn yn rhan o'r trywydd tystiolaeth hwn. Nodwch sut rydych chi wedi ystyried effeithiau economaidd-gymdeithasol, a sut rydych chi wedi cynnwys eraill yn yr asesiad hwn.

## ADRAN 7. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN GOFYNNOL

Rydych nawr wedi penderfynu ar y meysydd hynny lle bydd angen cynnal asesiad effaith mwy manwl. Rhestrwch y rhain isod.

| **Asesiad Effaith** | **Oes/ Nac oes** | **Os oes, dylech wneud y canlynol:** |
|---|---|---|
| Hawliau plant | Nac oes | Llenwi’r Asesiadau Effaith Llawn isod |
| Cydraddoldeb | Oes* | Llenwi’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb isod |
| Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol | Nac oes | Cwblhewch yr Asesiad Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol isod |
| Prawfesur Gwledig | Nac oes | Llenwi’r **Error! Reference source not found.** isod |
| Iechyd | Nac oes | Edrych ar Ganllawiau’r Asesiad Effaith Integredig |

| | | |
|---|---|---|
| Preifatrwydd | Nac oes | Llenwi'r **Error! Reference source not found.** isod |
| Y Gymraeg | Oes | Llenwi'r **Error! Reference source not found.** isod |
| Economaidd / Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Oes | Edrych ar Ganllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |
| Cyfiawnder | Nac oes | Llenwi'r ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder ar y fewnrwyd |
| Bioamrywiaeth | Oes* | Llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth isod |
| Newid Hinsawdd | Nac oes | Edrych ar Ganllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol | Nac oes | Edrych ar Ganllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Nacoes | Edrych ar Ganllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |
| Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | Nac oes | Edrych ar Ganllawiau'r Asesiad Effaith Integredig |

* Yn orfodol ar gyfer pob cynnig er mwyn bodloni'r rhwymedigaethau statudol.

## ADRAN 8. CASGLIAD

**Sut y mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

Roedd yr ymgynghoriad 12 wythnos ffurfiol yn gyfle i ymgysylltu â rhanddeiliaid a phobl y bydd y cynnig i gynyddu'r uchafswm ffi am ofal amhreswyl yn effeithio arnynt yn uniongyrchol a cheisio adborth ganddynt. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiynau penodol am effaith ac yn caniatáu i bobl gynnig rhagor o adborth ar feysydd nad yw swyddogion wedi'u hystyried eto o bosibl. Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ffurfiol ddod i ben, cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi'n ofalus gan Lywodraeth Cymru a bydd cyfle i ddiwygio'r cynigion ymhellach mewn ymateb i'r adborth a gafwyd. Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion er mwyn amlinellu'r adborth a gafwyd a nodi'r camau nesaf.

**8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Yr effaith fwyaf sylweddol yw y gallai fod angen i rai pobl sy'n talu tuag at gost eu gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl ar hyn o bryd, dalu mwy bob wythnos am eu gwasanaethau gofal. Byddai'n cael effaith ar y rhai yr asesir eu bod yn gallu talu ffi (hyd at swm yr uchafswm ffi wythnosol) neu'r rhai sy'n dewis peidio â chael asesiad ariannol y gallai fod yn ofynnol iddynt dalu'r uchafswm ffi. Gallai pobl sy'n wynebu caledi ariannol neu sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi'n ariannol o ganlyniad i'r argyfwng costau byw, wynebu anawsterau pellach yn eu sefyllfa ariannol pan gynhelir y prawf modd.  Mae'r swm y mae oedolion sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl yn ei gyfrannu tuag at gost eu gofal yn seiliedig ar eu sefyllfa ariannol ac, felly, nid yw cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am ofal amhreswyl yn debygol o effeithio ar unigolion nad ydynt yn talu'r uchafswm ffi wythnosol bresennol ar hyn o bryd. Mae'n bosibl mewn sefyllfa lle mae darparwyr yn cynyddu cost eu gwasanaethau y bydd y rhai sy'n talu llai na'r uchafswm ffi wythnosol ar hyn o bryd hefyd yn wynebu swm uwch.

Mae a wnelo'r cynigion yn bennaf â sefyllfa ariannol oedolion sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl, yn hytrach nag effeithio, o reidrwydd, ar ddiwylliant a'r Gymraeg. Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, os bydd angen i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd yr awdurdod lleol yn cynnal yr asesiad ariannol yn Gymraeg yn unol â dewis iaith yr unigolyn *Mwy na geiriau* sef cynllun y Gymraeg Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol, yn amlinellu sut y byddwn yn parhau i ymgorffori'r Gymraeg yn y sector er mwyn sicrhau y gall pobl gael y gofal y maent yn ei haeddu ac y mae ei angen arnynt.

Ar hyn o bryd mae gwasanaethau gofal cymdeithasol o dan bwysau difrifol oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol a chynnydd yn nifer y bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt. Mae angen i awdurdodau lleol gynhyrchu cymaint o incwm â phosibl er mwyn sicrhau y gallant ddarparu gwasanaethau i bobl yn y gymuned a sicrhau bod y gwasanaethau yn ariannol gynaliadwy ac y gallant ddarparu gwasanaethau o ansawdd

uchel. Os bydd y Gweinidogion yn penderfynu cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am ofal amhreswyl, gallai'r incwm ychwanegol y gall yr awdurdodau lleol arfer eu disgresiwn i'w godi gyfrannu at y diffyg mewn cyllid, ond ni fydd yn talu'n llawn am y diffyg sydd gan yr awdurdod lleol i sicrhau bod y system gofal cymdeithasol yn dal yn gynaliadwy a'i bod yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl.

Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n anelu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, saith nod llesiant, sef:

- Cymru Iewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r cynnig i gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am ofal amhreswyl wedi'i ystyried yn unol â'r nodau llesiant hyn. Byddai'r ffrwd refeniw cynyddol y gallai ei chynhyrchu i awdurdodau lleol (gan sicrhau cydbwysedd rhwng pwysau ariannol unigol uniongyrchol a heriau ariannol hirdymor ar yr un pryd) yn sicrhau Cymru sy'n fwy llewyrchus a chydnerth. Mae'n bwysig nodi cyhoeddiad y Prif Weinidog, yn ôl ym mis Medi 2024, am flaenoriaethau newydd Llywodraeth Cymru. Yn benodol, mae'r Prif Weinidog yn blaenoriaethu Gofal Cymdeithasol a'i ffordd o gefnogi'r bobl. Drwy gymeradwyo'r cynnydd yn yr uchafswm ffi wythnosol ar gyfer gofal amhreswyl byddai'r polisi'n groes i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Mae'r ymrwymiadau parhaus ym mhob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, ar ffurf Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru, Cynllun Gweithredu'r Gymraeg, targed o sicrhau allyriadau carbon sero net erbyn 2030 ar gyfer y sector cyhoeddus, a chynllun Cymru Iachach, yn cyfrannu tuag at gyflawni’r nodau o greu Cymru iachach, fwy cyfartal a mwy cyfrifol ar lefel fyd-eang, sydd â diwylliant bywiog a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

**8.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu gymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a’r saith nod llesiant; a/neu,**

- **yn osgoi, yn lleihau neu’n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig cyfle i brofi'r tybiaethau ynglŷn â'r effeithiau a nodir yn yr asesiad hwn. Rydym yn gobeithio nodi effeithiau eraill y gallwn eu hystyried ymhellach wrth inni ddatblygu'r cynigion a llunio mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau negyddol. Byddwn yn defnyddio'r asesiadau a nodir yma ac asesiadau pellach i helpu i sicrhau y gellir cyflawni cynigion a ddatblygir o'r ymgynghoriad yn y ffordd orau er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru gymaint â phosibl. Rydym wedi nodi uchod effeithiau allweddol y cynigion, sy'n cynnwys y rhai cadarnhaol i awdurdodau lleol a'r rhai negyddol i bobl. Ar gyfer y prif effeithiau negyddol o ran yr heriau gweithredu, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol er mwyn datblygu cynigion mewn partneriaeth sy'n sicrhau y caiff unrhyw feichiau gweithredu eu lleihau cymaint ag y bo'n ymarferol.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac wedi iddo gael ei gwblhau?**

Mae a wnelo'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn â'r uchafswm ffi am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl i oedolion. Bydd angen i'r awdurdodau lleol, wrth godi ffioedd am ofal amhreswyl, gynnal asesiad ariannol yn unol â'r Rheoliadau a'r Cod Ymarfer a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

## ADRAN 9. DATGANIAD

**Datganiad**

Rwyf yn fodlon bod effaith y camau gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch-swyddog Cyfrifol / Cyfarwyddwr: Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol

Adran: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Dyddiad:  16 Hydref 2024

# ASESIADAU EFFAITH LLAWN

## A. ASESIAD O’R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

Dylid ystyried y cwestiynau canlynol. Ystyriwch a oes effeithiau posibl ar is-adrannau o wahanol grwpiau nodweddion gwarchodedig.

Dim ond sicrhau bod y rhai sy'n gallu fforddio'r cynnydd ar ofal amhreswyl drwy brawf modd; a sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi'n llawn gan eu hawdurdod lleol unwaith y bydd terfyn cyfalaf wedi cyrraedd £24,000 (neu'n is).

Drwy ein hymgynghoriad a'n hymchwil, rydym wedi nodi y gallai cynnydd yn yr uchafswm ffioedd wythnosol amhreswyl effeithio'n negyddol ar y rhai sydd mewn gofal amhreswyl trwy feichiau ariannol pellach (gan nad yw profion modd yn ystyried costau byw), gan effeithio ar iechyd meddwl a llesiant pobl drwy gael eu hailasesu (herio penderfyniadau) a thalu i dderbyn gofal; ac yn gorfforol, gyda llawer o bosibl yn ymneilltuo o'r gwasanaeth gofal er mwyn fforddio eu biliau eraill (gan arwain at esgeulustod posibl).

Dim ond y rhai sy'n gallu fforddio fydd yn talu'r cynnydd.

**Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig**:

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau sydd wrth wraidd eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Oed (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Pobl 18 oed neu hŷn<br><br>Mae'r fframwaith asesiad ariannol a chodi tâl yn benodol i bob oedolyn ac nid yw'n gwahaniaethu ar gyfer gwahanol garfannau oedran o fewn y categori | Mae'r rheoliadau codi tâl yn nodi'r wybodaeth am godi tâl ac incwm sy'n cael ei chymryd i ystyriaeth wrth asesu gallu ariannol unigolyn i dalu am ei ofal neu tuag ato. | Ni chodir tâl ond ar yr unigolion hynny yr asesir eu bod yn gallu fforddio'n ariannol i dalu rhan o gost lawn gofal amhreswyl. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ‘oedolyn’. Mae'r asesiad codi tâl sy'n pennu'r tâl y gofynnir i oedolyn ei dalu, gan ei awdurdod lleol, yn asesu pobl ar eu moddion ariannol tra'n sicrhau eu bod yn cael eu gadael gydag isafswm incwm, a bod asesiadau cyfalaf hyd at £24,000 yn cael eu diogelu. Mae hyn yn golygu mai dim ond cyfran o oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl fydd yn gorfod talu uchafswm ffi, a chytunir bod hyn yn cael ei godi o'r uchafswm presennol o £100. Ni fydd yn ofynnol i bawb sy'n talu'r swm hwnnw ar hyn o bryd dalu'r uchafswm newydd a godir gan y bydd asesiad ariannol yn penderfynu ar hyn. Bydd rheoliadau a'r Cod Ymarfer sy'n llywodraethu codi tâl yn sicrhau bod unigolion yn talu'r hyn sy'n deg, yn rhesymol ac yn fforddiadwy iddynt beth bynnag fo'u hoedran.<br><br>I'r rhai o oedran Pensiwn y | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Wladwriaeth a hŷn, mae'n anochel y gallai rhai unigolion fod wedi cronni mwy o asedau ariannol nag eraill oherwydd cyfnod hirach o fod yn economaidd weithgar drwy gyflogaeth, perchnogaeth ar eiddo a chronni cynilion. Er hynny, fel y soniwyd uchod, nid yw'r fframwaith codi tâl yn benodol i oedran, ac incwm a chyfalaf person, ac nid ei oedran, sy'n pennu'r hyn y mae'n ei dalu. O ganlyniad, mae'r fframwaith yn sicrhau bod unrhyw newidiadau a godir yn gymesur â moddion ariannol unigolyn.<br><br>Mae'r effaith polisi ar gyfer oedran, felly, yn **gadarnhaol**.<br><br><br><18 oed<br><br>Nid yw plant, yn wahanol i oedolion, yn gorfod talu am eu gwasanaethau gofal a chymorth gan yr awdurdod lleol. Felly, nid yw'r polisi hwn yn cael fawr o effaith, a dim ond y rhai sydd ar fin troi'n 18 oed fydd | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yn gweld newid ond, fel uchod, ni fyddai'r tâl uchaf yn gymwys ond lle'r aseswyd bod y swm hwnnw'n deg, yn rhesymol ac yn fforddiadwy. Mae'r effaith polisi ar blant, felly, yn **gadarnhaol**. | | |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[11] a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi'n anfwriadol, neu y gallai gael ei ddefnyddio i ddileu'n rhagweithiol, y rhwystrau sy'n anablu pobl â gwahanol fathau o amhariadau) | Mae'n bosibl iawn y bydd pobl ag anabledd yn cael budd-dal lles sy'n gysylltiedig ag anabledd a allai, yn dibynnu ar natur y budd-dal hwnnw, ei gwneud yn fwy tebygol y codir tâl arnynt. Mae hyn oherwydd bod rhai budd-daliadau yn cynnwys elfen i ddiwallu cost anghenion gofal. Er hynny, at ddibenion asesiad ariannol a chodi tâl, nid yw'r fframwaith yn ymwneud ag unrhyw anabledd yn benodol. Mae'n edrych ar bobl ar sail eu rhinweddau eu hunain o ran y gofal a'r cymorth y | Mae'r rheoliadau codi tâl yn nodi'r wybodaeth am godi tâl ac incwm sy'n cael ei chymryd i ystyriaeth wrth asesu gallu ariannol unigolyn i dalu am ei ofal neu tuag ato. | Ni chodir tâl ond ar yr unigolion hynny yr asesir eu bod yn gallu fforddio'n ariannol i dalu rhan o gost lawn gofal amhreswyl. |

[11] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn cael eu hanablu gan amhariadau ond gan y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Y ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl yw drwy sicrhau mai dileu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, y bydd eich cynnig. Am ragor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwilio am 'model cymdeithasol'.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mae arnynt eu hangen eu cost a gallu ariannol yr unigolyn hwnnw i dalu'r ffi am hyn. Os na fydd gan unigolyn lawer o arian oherwydd anabledd, byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei asesiad er mwyn lleihau unrhyw ffi a gâi ei chodi arno yn unol â hynny. O ganlyniad, mae'r fframwaith yn sicrhau bod unrhyw newidiadau a godir yn gymesur â moddion ariannol unigolyn.<br><br>Er y gellid ystyried bod y cynnydd arfaethedig yn lefel y newid mwyaf, ar ei ben ei hun, yn cael effaith negyddol, ystyrir bod y newidiadau yn gyffredinol yn cael **effaith gadarnhaol** ar y rhai ag anabledd. Mae hyn oherwydd bod gan fodolaeth uchafswm (sy'n cyfyngu ar daliadau), ynghyd â bodolaeth y terfyn cyfalaf a gofyniad isafswm incwm, effaith ariannol gadarnhaol sylweddol sy'n gorbwyso effaith | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | negyddol y cynnydd yn yr uchafswm. | | |
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol) | At ddibenion asesiad ariannol a chodi tâl, nid yw'r fframwaith a gyflwynir yn ymwneud ag unrhyw rywedd yn benodol. Mae'n edrych ar bobl ar sail eu rhinweddau eu hunain o ran y gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen eu cost a gallu ariannol yr unigolyn hwnnw i dalu'r ffi am hyn. Os na fydd gan unigolyn trawsryweddol lawer o arian, byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei asesiad er mwyn lleihau unrhyw ffi a gâi ei chodi arno yn unol â hynny.<br><br>Ni fydd y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn newid y sefyllfa hon. | Mae'r rheoliadau codi tâl yn nodi'r wybodaeth am godi tâl ac incwm sy'n cael ei chymryd i ystyriaeth wrth asesu gallu ariannol unigolyn i dalu am ei ofal neu tuag ato. | Ni chodir tâl ond ar yr unigolion hynny yr asesir eu bod yn gallu fforddio'n ariannol i dalu rhan o gost lawn gofal amhreswyl. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | At ddibenion asesiad ariannol a chodi tâl, nid yw'r fframwaith yn gysylltiedig â beichiogrwydd. Mae'n edrych ar bobl ar sail eu rhinweddau eu hunain o ran y gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen eu cost a gallu ariannol | Mae'r rheoliadau codi tâl yn nodi'r wybodaeth am godi tâl ac incwm sy'n cael ei chymryd i ystyriaeth wrth asesu gallu ariannol unigolyn i dalu am ei ofal neu tuag ato. | Ni chodir tâl ond ar yr unigolion hynny yr asesir eu bod yn gallu fforddio'n ariannol i dalu rhan o gost lawn gofal amhreswyl. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yr unigolyn hwnnw i dalu'r ffi am hyn. Os nad oess gan unigolyn lawer o arian, oherwydd beichiogrwydd neu famolaeth, byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei asesiad er mwyn lleihau unrhyw ffi a gâi ei chodi arno yn unol â hynny.<br><br>Ni fydd y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn newid y sefyllfa hon. | | |
| Hil (cynhwyswch wahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | At ddibenion asesiad ariannol a chodi tâl, nid yw'r fframwaith yn ymwneud ag unrhyw hil yn benodol. Mae'n edrych ar bobl ar sail eu rhinweddau eu hunain o ran y gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen, eu cost a gallu ariannol yr unigolyn hwnnw i dalu'r ffi am hyn. Os nad oedd gan unigolyn lawer o arian oherwydd ei ethnigrwydd, byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei asesiad er mwyn lleihau unrhyw ffi a gâi ei chodi arno yn unol â hynny. | Mae'r rheoliadau codi tâl yn nodi'r wybodaeth am godi tâl ac incwm sy'n cael ei chymryd i ystyriaeth wrth asesu gallu ariannol unigolyn i dalu am ei ofal neu tuag ato. | Ni chodir tâl ond ar yr unigolion hynny yr asesir eu bod yn gallu fforddio'n ariannol i dalu rhan o gost lawn gofal amhreswyl. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ni fydd y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn newid y sefyllfa hon. | | |
| Crefydd, cred a diffyg cred | At ddibenion asesiad ariannol a chodi tâl, nid yw'r fframwaith yn ystyried credoau. Mae'n edrych ar bobl ar sail eu rhinweddau eu hunain o ran y gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen eu cost a gallu ariannol yr unigolyn hwnnw i dalu'r ffi am hyn. Os nad oedd gan unigolyn lawer o arian oherwydd eu cred neu eu diffyg cred, byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei asesiad er mwyn lleihau unrhyw ffi a gâi ei chodi arno yn unol â hynny.<br><br>Ni fydd y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn newid y sefyllfa hon. | Mae'r rheoliadau codi tâl yn nodi'r wybodaeth am godi tâl ac incwm sy'n cael ei chymryd i ystyriaeth wrth asesu gallu ariannol unigolyn i dalu am ei ofal neu tuag ato. | Ni chodir tâl ond ar yr unigolion hynny yr asesir eu bod yn gallu fforddio'n ariannol i dalu rhan o gost lawn gofal amhreswyl. |
| Rhyw / Rhywedd | At ddibenion asesu ariannol a chodi tâl, nid yw'r fframwaith yn ymwneud ag unrhyw rywedd yn benodol. Mae'n edrych ar bobl ar sail eu rhinweddau eu hunain o ran y | Mae'r rheoliadau codi tâl yn nodi'r wybodaeth am godi tâl ac incwm sy'n cael ei chymryd i ystyriaeth wrth asesu gallu ariannol | Ni chodir tâl ond ar yr unigolion hynny yr asesir eu bod yn gallu fforddio'n ariannol i dalu rhan o gost lawn gofal amhreswyl. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen eu cost a gallu ariannol yr unigolyn hwnnw i dalu'r ffi am hyn. Os na fydd gan unigolyn lawer o arian oherwydd ei ryw, byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei asesiad er mwyn lleihau unrhyw ffi a gâi ei chodi arno yn unol â hynny.<br><br>Ni fydd y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn newid y sefyllfa hon. | unigolyn i dalu am ei ofal neu tuag ato. | |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | At ddibenion asesiad ariannol a chodi tâl, nid yw'r fframwaith yn ystyried cyfeiriadedd rhywiol. Mae'n edrych ar bobl ar sail eu rhinweddau eu hunain o ran y gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen eu cost a gallu ariannol yr unigolyn hwnnw i dalu'r ffi am hyn. Os nad oedd gan unigolyn lawer o arian oherwydd ei gcyfeiriadedd rhywiol, byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei asesiad er mwyn lleihau unrhyw ffi a gâi | Mae'r rheoliadau codi tâl yn nodi'r wybodaeth am godi tâl ac incwm sy'n cael ei chymryd i ystyriaeth wrth asesu gallu ariannol unigolyn i dalu am ei ofal neu tuag ato. | Ni chodir tâl ond ar yr unigolion hynny yr asesir eu bod yn gallu fforddio'n ariannol i dalu rhan o gost lawn gofal amhreswyl. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ei chodi arno yn unol â hynny.<br><br>Ni fydd y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn newid y sefyllfa hon. | | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | At ddibenion asesiad ariannol a chodi tâl, nid yw'r fframwaith yn ymwneud ag unrhyw gydberthynas yn benodol. Mae'n edrych ar bobl ar sail eu rhinweddau eu hunain o ran y gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen eu cost a gallu ariannol yr unigolyn hwnnw i dalu'r ffi am hyn. Os na fydd gan unigolyn lawer o arian gan ei fod yn sengl, yn briod neu mewn partneriaeth sifil, byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei asesiad er mwyn lleihau unrhyw ffi a gâi ei chodi arno yn unol â hynny.<br><br>Ni fydd y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn newid y sefyllfa hon. | Mae'r rheoliadau codi tâl yn nodi'r wybodaeth am godi tâl ac incwm sy'n cael ei chymryd i ystyriaeth wrth asesu gallu ariannol unigolyn i dalu am ei ofal neu tuag ato. | Ni chodir tâl ond ar yr unigolion hynny yr asesir eu bod yn gallu fforddio'n ariannol i dalu rhan o gost lawn gofal amhreswyl. |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Nid yw plant, yn wahanol i oedolion, yn gorfod talu am eu | Mae'r rheoliadau codi tâl yn nodi'r wybodaeth am godi | Ni chodir tâl ond ar yr unigolion hynny yr asesir eu bod yn gallu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwasanaethau gofal a chymorth gan yr awdurdod lleol. Felly, nid yw'r polisi hwn yn cael fawr o effaith, a dim ond y rhai sydd ar fin troi'n 18 oed fydd yn gweld newid ond, fel uchod, ni fyddai'r tâl uchaf yn gymwys ond lle'r aseswyd bod y swm hwnnw'n deg, yn rhesymol ac yn fforddiadwy. Mae'r effaith polisi ar blant, felly, yn **gadarnhaol**. | tâl ac incwm sy'n cael ei chymryd i ystyriaeth wrth asesu gallu ariannol unigolyn i dalu am ei ofal neu tuag ato. | fforddio'n ariannol i dalu rhan o gost lawn gofal amhreswyl. |
| Aelwydydd incwm isel | At ddibenion cynnal asesiadau ariannol a chodi ffioedd, mae'r fframwaith yn edrych ar bobl ar sail eu rhinweddau eu hunain o ran y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, eu cost a gallu ariannol yr unigolyn hwnnw i dalu'r ffi am hyn. Os na fydd gan unigolyn lawer o arian, byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei asesiad er mwyn lleihau unrhyw ffi a gâi ei chodi arno yn unol â hynny.<br><br>Ni fydd y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn newid y sefyllfa hon. | Mae'r rheoliadau codi tâl yn nodi'r wybodaeth am godi tâl ac incwm sy'n cael ei chymryd i ystyriaeth wrth asesu gallu ariannol unigolyn i dalu am ei ofal neu tuag ato. | Ni chodir tâl ond ar yr unigolion hynny yr asesir eu bod yn gallu fforddio'n ariannol i dalu rhan o gost lawn gofal amhreswyl. |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

| **Hawliau Dynol** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau sydd wrth wraidd eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru’r effeithiau negyddol?** |
|---|---|---|---|
| | At ddibenion cynnal asesiadau ariannol a chodi ffioedd, mae'r fframwaith yn edrych ar bobl ar sail eu rhinweddau eu hunain o ran y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, eu cost a gallu ariannol yr unigolyn hwnnw i dalu'r ffi am hyn. Os na fydd gan unigolyn lawer o arian, byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei asesiad er mwyn lleihau unrhyw ffi a gâi ei chodi arno yn unol â hynny.<br><br>Ni fydd y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn newid y sefyllfa hon. | Mae'r rheoliadau codi tâl yn nodi'r wybodaeth am godi tâl ac incwm sy'n cael ei chymryd i ystyriaeth wrth asesu gallu ariannol unigolyn i dalu am ei ofal neu tuag ato. | Ni chodir tâl ond ar yr unigolion hynny yr asesir eu bod yn gallu fforddio'n ariannol i dalu rhan o gost lawn gofal amhreswyl. |

**Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir**

Mae Rhan 2 o'r Cytundeb Ymadael rhwng yr UE[12] a'r DU, ynghyd â Chytundeb Gwahanu EFTA yr AEE a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir (“Cytundebau Hawliau Dinasyddion”) yn rhoi sicrwydd i ddinasyddion yr UE, yr AEE a'r Swistir a oedd yn preswylio'n gyfreithlon yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 y diogelir eu hawliau fel dinasyddion.

Caiff Cytundebau Hawliau Dinasyddion eu gweithredu mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020.[13]

Ar y cyfan, bydd unigolion cymwys sy'n dod o fewn cwmpas Cytundebau Hawliau Dinasyddion yn parhau i fod â'r un hawliau i weithio, astudio, defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chael budd-daliadau, i'r graddau bod yr hawliau hyn yn deillio o aelodaeth y DU o'r UE yn ogystal â'i chyfranogiad yng Nghytundeb yr AEE a'r Cytundeb Rhyddid Pobl i Symud rhwng yr UE a'r Swistir.

Yn ddarostyngedig i rai eithriadau cyfyngedig[14], bydd angen i unigolion fod wedi gwneud cais am statws preswylydd newydd (naill ai statws preswylydd cyn-sefydlog neu statws preswylydd sefydlog) drwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais o'r fath oedd 30 Mehefin 2021.

Ystyriaethau polisi y dylid rhoi sylw iddynt:

- A ydych wedi ystyried a fydd eich cynnig polisi yn effeithio ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir y diogelir eu hawliau gan Gytundebau Hawliau Dinasyddion?
- A allai gael effaith negyddol ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir? Sut y caiff unrhyw effeithiau o'r fath eu dileu neu eu rheoli, os ystyrir eu bod yn briodol eu rheoli?
- A oes angen cyngor cyfreithiol?

Ystyriwch effaith eich polisi ar y meysydd isod, gan nodi a yw'r effaith yn un gadarnhaol neu negyddol ac unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i ddileu effeithiau negyddol posibl. Nodwch y rheswm dros eich ateb, gan gynnwys ble y ceisiwyd cyngor cyfreithiol a nodwch hefyd ble nad yw hawl yn berthnasol i'ch polisi:

---

[12] Mae'r AEE yn cynnwys gwledydd yr UE yn ogystal ag Ynys yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.

[13] Adrannau 5 a 6 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020.

[14] E.e. os oes gan unigolyn ddinasyddiaeth Wyddelig (gan gynnwys dinasyddiaeth Brydeinig a Gwyddelig ddeuol) neu os oedd ganddo ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r DU neu aros yn y DU)

**Preswylio –** yr hawl i breswylio a hawliau eraill sy'n ymwneud â phreswylio: hawliau i adael gwlad a dod i mewn iddi, ceisiadau am statws preswylydd, cyfyngiadau ar hawliau i ddod i mewn i wlad a phreswylio;

**Cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol** – parhau i gydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd gan ddinasyddion yr UE/AEE/y Swistir yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU);

**Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol –** mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd;

**Triniaeth gyfartal** – mae hyn yn cwmpasu dim gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr;

**Hawliau gweithwyr** – Ar y cyfan, gwarantir yr un hawliau i weithwyr a phobl hunangyflogedig sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion ag a oedd ganddynt pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt yr hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu oherwydd cenedligrwydd a'r hawl i gael eu trin yn gyfartal â gwladolion y DU.

(Gall gweithwyr trawsffiniol (y dinasyddion hynny sy'n preswylio mewn un wladwriaeth ac sy'n gweithio'n rheolaidd mewn un arall) barhau i weithio yn y DU os oeddent yn gwneud hynny erbyn 31 Rhagfyr 2020).


## B. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

*Cymraeg 2050* yw'n strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i’r strategaeth newydd, ac mae’r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg sy'n ffynnu  yn un o’r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd.

Mae rhwymedigaeth statudol arnom hefyd i roi ystyriaeth lawn i effeithiau'n gwaith ar y Gymraeg. Mae hynny'n golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut mae ein polisïau’n effeithio ar yr iaith a’r bobl sy’n ei siarad.

Mae tair thema gydgysylltiedig i strategaeth Cymraeg 2050:



Mae’r penawdau o dan bob thema yn amlinellu cwmpas gweithgareddau sy’n gallu effeithio ar yr iaith.

Fel rheol, os oes posibilrwydd y bydd eich polisi'n effeithio ar bobl, bydd yn effeithio mewn rhyw ffordd ar siaradwyr Cymraeg ac felly ar y Gymraeg.

1. Cyfeirnod yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau’r Gymraeg, cyfeiriad e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru): **08/01/2024**

2. A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? - Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? Rhaglen waith Cymraeg 2050 2021/2026

Mae a wnelo'r cynnig hwn â chynyddu'r uchafswm ffi am ofal amhreswyl ar gyfer oedolion sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl.

3. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac esboniwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r sefyllfa o ran y Gymraeg. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oedran (effeithiau cadarnhaol a/neu effeithiau andwyol)? Dylech nodi eich ymatebion i’r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

- Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith[15] (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?
- Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

[15] Gall y rhain fod yn gymunedau gwledig clos, rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn lleoliadau trefol, ac yn gymunedau rhithiol sy’n ymestyn ar draws ardaloedd daearyddol.

- Sut bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau[16] sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)? (ee iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, yr amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)
- Sut y byddwch chi'n sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac yn gallu manteisio arnynt a'u defnyddio mewn ffordd yr un mor hawdd â gwasanaethau Saesneg? Pa dystiolaeth / ddata a ddefnyddiwyd gennych yn sail i'ch asesiad, gan gynnwys tystiolaeth oddi wrth siaradwyr Cymraeg neu grwpiau sydd â diddordeb yn y Gymraeg?
- Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?
- Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a'r rheoliadau a'r cod mewn perthynas ag asesiadau ariannol a chodi ffioedd, yn darparu ar gyfer fframwaith tecach codi ffioedd lle y gall unigolyn fynnu bod y broses yn cael ei chynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith, gan ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg a sicrhau y gallant ddefnyddio'r iaith yn eu hymwneud ag awdurdodau lleol os byddant yn dymuno gwneud hynny. Bydd hyn yn amhrisiadwy i siaradwyr Cymraeg, yn enwedig unigolion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Nid ystyrir y bydd y polisi hwn yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg.

Pan ddaeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i rym, cafwyd ymrwymiad gan Weinidogion y byddai'r rheoliadau a'r canllawiau sy'n ategu'r Ddeddf yn rhoi sylw dyladwy i'r Gymraeg. O ganlyniad, mae pob rheoliad a chod ymarfer a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodir yn y ddeddf honno, sy'n cynnwys dyletswydd gyffredinol yn adran 6(2)(c) bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth o dan y Ddeddf roi '...sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys, er enghraifft, iaith)'.

Mae egwyddorion allweddol "Mwy na geiriau"[17] wedi'u hymgorffori yn y Ddeddf, sef bod yn rhaid i bob person a sefydliad sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ystyried hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg os byddant yn dymuno gwneud hynny. Mae'r Cynnig Gweithredol yn un o egwyddorion allweddol Mwy na Geiriau ac mae'n rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach na bod y claf, defnyddiwr y gwasanaeth neu'r teulu yn gorfod gofyn amdanynt.

---

[16] Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a gweld cynnydd yn y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg.

[17] Mwy na geiriau yw strategaeth Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu a datblygu darpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal.

Cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned

Un o brif nodau'r polisi yw hyrwyddo annibyniaeth unigolyn a sicrhau ei fod yn deall, ac yn cael gwybodaeth lawn, os bydd ffi yn cael ei chodi am y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arno. Mae'n rhaid i bob person a sefydliad sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ystyried hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg os byddant yn dymuno gwneud hynny. At hynny, mae'r rheoliadau a'r cod yn darparu y gall y rhai sydd am gysylltu ag awdurdodau lleol mewn perthynas ag asesiadau ariannol a chodi ffioedd drwy gyfrwng y Gymraeg, wneud hynny. Felly, byddant yn cael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg a chymunedau lle y siaredir y Gymraeg yn bennaf.

Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar unrhyw bersonau sy'n arfer ei swyddogaethau i geisio hyrwyddo llesiant unigolion, gan gynnwys dyletswydd i ystyried nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys iaith). Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg i wella llesiant pobl ac ansawdd gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys lle mae asesiadau ariannol yn cael eu cynnal a ffioedd yn cael eu codi fel y bydd dyletswydd ychwanegol ar y swyddogion hynny mewn awdurdodau lleol sy'n ymgymryd â hyn i fynd ati i gynnig gwasanaethau a chymorth yn Gymraeg i unigolion.

Gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion

Dylai awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod y defnydd o'r Gymraeg wedi'i ymgorffori yn y broses o gynnal asesiadau ariannol a chodi ffioedd. I lawer o siaradwyr Cymraeg, mae iaith yn rhan annatod o'r gofal a'r cymorth y maent yn eu cael, e.e. mae rhai pobl yn agored i niwed a gall rhoi cyfle iddynt gysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg helpu i dawelu eu gofid. Mae cyfrifoldeb ar wasanaethau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau priodol sy'n diwallu anghenion ieithyddol yr unigolion sy'n eu cael.

Mae'r ffordd y mae'r rheoliadau a'r cod wedi'u drafftio yn golygu bod y Ddeddf, a'r rheoliadau a'r cod ar gynnal asesiadau ariannol a chodi ffioedd, yn gymwys i bawb yng Nghymru y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae'r rheoliadau a'r cod yn seiliedig ar egwyddorion y Ddeddf sy'n nodi bod rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth o dan y Ddeddf roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, sy'n cynnwys iaith. I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y dylai unrhyw unigolion sy'n cael asesiad ariannol gan awdurdod lleol ar gyfer ffi allu cael yr asesiad hwnnw yn Gymraeg os byddant yn dymuno.

## C. ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

Mae Cynllun Adfer Natur Cymru yn cynnwys chwe amcan i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, y dylid eu defnyddio i asesu'r effeithiau ar fioamrywiaeth. Gallant hefyd helpu i ddatblygu a llywio camau gweithredu i gydymffurfio â dyletswydd A6. Maent wedi'u symleiddio i fod yn set o gwestiynau i'ch arwain drwy'r asesiad effaith.

Dylid ystyried y cwestiynau hyn boed eich cynnig yn cynnwys elfen rheoli tir ai peidio, er y bydd rhai yn berthnasol iawn os yw eich maes polisi yn ymwneud â rheoli tir mewn unrhyw ffordd.

Dylech fynd ati'n rhagweithiol i ystyried yr effeithiau posibl ar fioamrywiaeth – dyma un maes lle caiff canlyniadau anfwriadol yn aml eu hesgeuluso, un ai drwy ddiffyg ymwybyddiaeth, neu gan ei bod yn anodd rhoi gwerth ariannol ar fioamrywiaeth.

Ar ben hynny, mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol inni fynd ati’n gadarnhaol i geisio cyfleoedd i gynnal a gwella bioamrywiaeth, yn uniongyrchol (lle bo'r ymyrraeth yn cynnwys rheoli tir neu waith adeiladu) ac yn anuniongyrchol (er enghraifft, lle gallai fod cyfle i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth). Wrth gwblhau'r asesiad hwn, ystyriwch sut y gallai gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau gyfrannu at nodau eich polisi neu brosiect.

Bydd angen i chi gofnodi'r penderfyniadau a'r effeithiau sy'n codi o'r asesiad hwn. Nodwch sut rydych wedi ateb pob cwestiwn, neu gallwch ddefnyddio'r templed ar ddiwedd yr asesiad. Mae canllawiau pellach ar gael ar y fewnrwyd.

**Ystyriwch Gwestiynau 1 – 9 ar gyfer POB polisi:**

**<u>Ymwreiddio bioamrywiaeth</u>**

1. **Sut y bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth i'r broses o wneud penderfyniadau?**

    - A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau a'r cyfleoedd cadarnhaol i weithredu dros fioamrywiaeth yn ystod y camau cychwynnol o ystyried neu gynllunio prosiect?
        - Beth fydd effaith caffael ar fioamrywiaeth, gan gynnwys bioamrywiaeth fyd-eang?
        - A yw'r cynhyrchion yn dod o ffynonellau cynaliadwy?
        - A yw eich prosiect yn cynnwys defnyddio deunyddiau neu arferion sy'n niweidio'r fioamrywiaeth?

- A oes angen i bartneriaid a buddiolwyr ystyried yr effeithiau a'r cyfleoedd i weithredu'n gadarnhaol dros fioamrywiaeth yn ystod y camau cychwynnol o ystyried neu gynllunio prosiect?
    - A yw ystyried bioamrywiaeth yn un o ofynion ceisiadau cyllid a manylebau prosiect?
    - A yw eich gwerthusiad o'r rhain yn ceisio sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella?

**2. A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried fel rhan o benderfyniadau busnes?**

- A yw wedi ystyried costau gydol oes sy'n cynnwys gwerth bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol yn y dadansoddiad cost a budd, hyd yn oed os yw'n broses anffurfiol?
    - A ydych wedi ystyried sut y gall gwella bioamrywiaeth helpu i gyflawni ar draws gweithgarwch Llywodraeth Cymru, er enghraifft i gefnogi gweithgareddau hamdden egnïol, addysg, atal llifogydd a thyfu bwyd yn lleol. (Er enghraifft, mae toeau gwyrdd yn helpu i ddarparu cynefinoedd bywyd gwyllt, yn lleihau'r defnydd o ynni ac yn gwella systemau draenio.)
- A yw wedi ystyried costau hirdymor dirywiad bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol, a'r posibilrwydd o arbed ar gyfer iechyd a llesiant, perygl llifogydd ac ati?
- A yw'n gallu annog partneriaid a buddiolwyr i ystyried y costau a'r arbedion hyn?

**3. Sut y mae eich cynnig yn gwella'r ddealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth gan annog eraill i weithredu?**

- Allwch chi weithio gyda phartneriaid a buddiolwyr i hyrwyddo dealltwriaeth o fioamrywiaeth?
- Allwch chi hyrwyddo'r manteision o sicrhau mynediad at fioamrywiaeth drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus megis gofal cymdeithasol, datblygu cymunedol, iechyd a hamdden?
- Allwch chi ddarparu neu drefnu hyfforddiant arbenigol lle bo angen?
- Allwch chi gysylltu â strategaethau cyfathrebu a mentrau bioamrywiaeth eraill, er enghraifft cynlluniau gwobrwyo a digwyddiadau lleol?

**Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n camau monitro**

4. **A ydych chi wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio eich cynnig a'r asesiad hwn?** Ddim yn berthnasol

   - **Rhaid** i chi ystyried
     - y rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn a gyhoeddwyd o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)
     - yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
     - unrhyw ddatganiad perthnasol a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

   - Os yw eich cynnig yn ymwneud ag adeiladu neu reoli tir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, dylai gyfeirio at y cofnodion bioamrywiaeth sydd ar gael drwy
     - Ganolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol
     - Atlas Cymru Fyw
     - Lle

5. **A ydych wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?**

   - A ydych chi'n gwybod beth sy'n sbarduno newid a beth yw'r ffactorau negyddol allweddol a allai godi o'ch cynnig?
   - A ydych chi'n fodlon nad yw'r rhain yn gymwys neu eu bod wedi'u hosgoi?

6. **A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth am fioamrywiaeth?**

   - A yw'n gallu cefnogi mentrau gwyddoniaeth i ddinasyddion a chynlluniau monitro?
   - A ydych chi wedi sicrhau bod unrhyw ddata am fioamrywiaeth a gesglir ar gael i'r cyhoedd?

**Llywodraethiant a chymorth i weithredu ar fioamrywiaeth**

7. **A all eich cynnig gefnogi gweithredu ar fioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?**

   - A all staff fod yn rhan o weithredu ymarferol?
   - A allwch chi ariannu unrhyw weithredu yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol?
   - A allwch chi gefnogi partneriaethau a/neu gydweithio er mwyn mynd ati i weithredu ar bioamrywiaeth yn lleol ac yn gymunedol?

8. **A all eich cynnig helpu i ddatblygu capasiti ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth?**

   - A allwch chi gefnogi camau i gaffael sgiliau a hyfforddiant?
   - A yw eich cynnig yn sicrhau bod gan y rheini sy'n rhan o broses o wneud penderfyniadau ynghylch bioamrywiaeth y cymwysterau priodol?
   - A all eich cynnig ariannu'r gwaith o feithrin gallu er mwyn gweithredu ar fioamrywiaeth?

9. **A ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu i'w cymryd i gynnal a gwella bioamrywiaeth?**

   - Rhaid cyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae'r awdurdod cyhoeddus wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd erbyn diwedd 2019 ac yna bob tair blynedd wedi hyn.

**Os yw eich cais yn ymwneud ag adeiladu neu reoli tir a/neu'r môr, dylech hefyd ystyried Cwestiynau 10 – 16:**

**<u>Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn</u>**

10. **A gydymffurfiwyd â'r holl ddeddfwriaeth i sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd morol a daearol yn cael eu diogelu?**

    - A ystyriwyd unrhyw ofyniad am drwyddedau, monitro a/neu gamau gorfodi ac a weithredwyd arnynt?
    - A nodwyd unrhyw ofyniad i gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol/Asesiad Amgylcheddol Strategol/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac a weithredwyd ar hynny?
    - A nodwyd unrhyw effeithiau neu gyfleoedd i gymryd camau cadarnhaol ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd yn Adran 7, ac a weithredwyd ar hynny?

11. **A yw'r cynnig yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth <u>yn y lle cyntaf</u>?**

- A ydych chi wedi dewis yr opsiwn sy'n osgoi colled a/neu ddifrod i fioamrywiaeth, ac sy'n hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau?
- Mewn achosion lle bo cydbwysedd y manteision amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol[18] sy’n cael ei ddarparu gan eich cynnig i'r graddau y gellid colli rhywfaint o gynefinoedd neu rywogaethau yn unig, a ydych chi wedi ceisio gwella bioamrywiaeth mewn mannau eraill ar y safle, neu os nad oes opsiwn i wneud hynny, yn rhywle oddi ar y safle?
- A yw eich cynnig yn cyfrannu at y gwaith o gynnal a gwella bioamrywiaeth ledled Cymru?

**Gwella cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol**

**12. A yw eich cynnig yn cyfrannu at ddatblygu cydnerthedd ein hecosystemau?**

- A yw'n gweithio gyda natur, ac yn ystyried y defnydd o atebion seiliedig ar natur yn bennaf?
- A oes unrhyw atebion seiliedig ar natur yn gynhenid ac yn fioamrywiol?
- A yw'n gallu adfer neu gyfrannu at y gwaith o adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio?
- A yw'n gallu cyfrannu at ddatblygu rhwydweithiau o gynefinoedd ecolegol cadarn?
- A yw'r cynnig yn gwella rheolaeth y safle i wella cyflwr y cynefin neu'r rhywogaethau ar **unrhyw** raddfa? ee plannu rhywogaethau cynhenid, darparu mannau o flodau gwyllt ar gyfer peillwyr, gadael rhannau o'r glaswellt heb ei dorri a gwella'r cysylltedd rhwng cynefinoedd gwerthfawr?

**13. A yw eich cynnig yn cyfrannu at greu cynefin newydd?**

- A yw eich cynnig yn cefnogi'r gwaith o greu cynefinoedd newydd, megis perllannau lleol, perthi cynhenid, dolydd o flodau gwyllt neu fannau gwyrdd eraill sy'n gynhenid ac yn fioamrywiol?
- A all creu cynefin gyfrannu at ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cadarn?

**Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd**

[18] Gan ystyried buddion a gwerth cynhenid adnoddau naturiol, gan gynnwys bioamrywiaeth, ac ecosystemau.

**14. A fydd y cynnig yn achosi unrhyw effeithiau negyddol i gynefinoedd neu rywogaethau drwy**

- newid defnydd y tir?
- achosi llygredd aer, dŵr, golau, sŵn neu ddirgryndod?

**15. A gydymffurfiwyd â'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd? Byddai hyn yn cynnwys:**

- Rheoli llygredd
- Rhywogaethau estron goresgynnol
- Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy
- Newid Hinsawdd ac ati.

**16. Sut y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru?**

- A ddefnyddiwyd dulliau system gyfan a datrysiadau cynhenid a bioamrywiol seiliedig ar natur i leihau llygredd a lliniaru'r newid hinsawdd?
- A yw eich cynnig yn defnyddio'r arferion gorau ar gyfer rheoli'r meysydd amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth ac adeiladu yn gynaliadwy?
- A yw eich cynnig yn cynnwys camau i gefnogi peillwyr?

| Rhif y cwestiwn | Cyfleoedd i gymryd camau cadarnhaol | Effeithiau negyddol y cynnig | Y camau sydd eu hangen i greu cymaint o gyfleoedd cadarnhaol â phosibl a rhwystro effeithiau negyddol |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## D. ASESIAD DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

**Ymgymryd â'r asesiad effaith**

| |
|---|
| **Pa dystiolaeth sydd wedi'i hystyried i ddeall sut mae'r cynnig yn cyfrannu at brofiadau anghydraddoldebau canlyniad o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**<br><br>*Pa wybodaeth a gafwyd trwy ymgysylltu â'r rhai y mae'r cynnig / penderfyniad yn effeithio arnynt ac yn benodol y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol?*<br><br>*A ystyriwyd nodweddion gwarchodedig?*<br><br>*A yw cymunedau diddordeb a chymunedau lleoedd wedi cael eu hystyried. (Cyfeiriwch at dudalen 8 yn y canllawiau statudol).*<br><br>*Pa wybodaeth sydd wedi'i hystyried ynglŷn â thueddiadau'r dyfodol?*<br><br>*Pa ddata sydd wedi'i ystyried (Cenedlaethol a lleol)* |
| *Rhowch grynodeb o'r dystiolaeth a dolenni* |

| |
|---|
| **Sut y gallai'r cynnig waethygu anghydraddoldeb canlyniad ymhellach o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**<br><br>*Rhowch fanylion ynglŷn ag anghydraddoldebau canlyniad sy'n debygol o gael eu heffeithio a'r bobl a'r cymunedau hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio* |

*Rhowch grynodeb o'r dystiolaeth a dolenni*

**Sut y gallai'r penderfyniad o bosibl wella canlyniadau i'r rheini sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?**

*Rhowch fanylion ynglŷn â chanlyniadau a fydd yn cael eu gwella ac i bwy.*

*Rhowch grynodeb o'r dystiolaeth a dolenni*

**Sut fyddwch chi'n monitro effaith y penderfyniad hwn? (Ystyriwch ganlyniadau ehangach)**

**Er enghraifft:** Rhoi Organau (Deddf Cydsyniad Tybiedig , 2019)

Mae'r GIG yng Nghymru fel arfer yn casglu data ar roi organau fesul miliwn o'r boblogaeth. Roedd modd cymharu'r wybodaeth monitro rhoi organau yng Nghymru â'r wybodaeth monitro rhoi organau yn Lloegr. Roedd y gymhariaeth â Lloegr, lle nad oedd unrhyw newid wedi'i weithredu, yn caniatáu gwerthusiad effaith yn cymharu'r data sylfaenol â data ar ôl ei weithredu i asesu achosiaeth.

*A oes angen casglu gwybodaeth fonitro newydd? Os felly, beth?*

*Rhowch grynodeb o'r dystiolaeth a dolenni*